# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Aled Morris Jones**
**Parti: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru** **Ward: Twrcelyn**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf wedi bod yn Aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor ac yn Ddeilydd Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

| **Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | [1] **Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 8 (100%) |
| Pwyllgor Gwaith | 12 (86%) |
| Is-bwyllgor Indemniadau | Dim cyfarfodydd. |
| Panel Rhiantu Corfforaethol | 2 (50%) |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 3 chyfarfod (50%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth.

Rwyf yn Bencampwr y Cyngor o ran y Lluoedd Arfog, Cydraddoldeb ac yn Aelod Arweiniol ar gyfer Diogelu Oedolion .

Fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith gyda chyfrifoldeb dros Wasanaethau Cymdeithasol a Thai, rwyf yn falch y byddwn yn edrych i adeiladu tai Cyngor ar Ynys Môn yn y dyfodol agos. Hefyd, adnoddau ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Plant.

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon | 3 | 1 |
| Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa | 2 | 2 |
| Grwp Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr | 1 | 1 |

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf wedi bod yn aelod o Gyngor Cymuned Rhosybol ers 1986. Mae etholwyr wedi cysylltu gyda mi ar e-bost, dros y ffon neu yn bersonol ar wahanol faterion. Rwyf wedi bod yn mynychu cyfarfodydd misol o Gyngor Cymuned Rhosybol (fel Aelod) hefyd cyfarfodydd o Gyngor Cymuned Llanbadrig, Llaneilian a Chyngor Tref Amlwch. Rwyf yn llywodraethwr yn ysgolion Rhosybol a Penysarn.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi cefnogi a bod yn rhan o nifer o gynlluniau gan gynnwys man croesi diogel wrth ymyl Ysgol Gynradd Rhosybol, sicrhau rhagor o wasanaeth gan wardeniaid traeth yn Nhraeth Llaneilian a goleuadau stryd ym Mhorth Amlwch. Hefyd, gwaith hyrwyddo o ran cynllun treftadaeth Cemaes a'r cysylltiad gyda Llysoedd y Tywysogion.

Parhau i gefnogi Gŵyl Gopr Porth Amlwch, codi arwydd yn Lon Leidar, Llandyfrydog. Rwyf wedi bod yn pwyso ar Horizon i sicrhau gwelliannau i'r ffordd rhwng Cemaes ag Amlwch a hyny o safbwynt datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Llywodraethu Gwybodaeth – Sesiwn Gyffredinol | 24 Tachwedd 2015 |
| Sipsiwn a Theithwyr - Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol | 7 Rhagfyr 2015 |
| Sesiynau Briffio Aelodau (6 allan o 11 = 55%) | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |

## 5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf yn parhau i fod â diddordeb brwd yn ddatblygiad cynllun Wylfa Newydd a'i effaith uniongyrchol ar ward Twrcelyn a'i etholwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=18&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** | **Ebrill 2016** |